



TV LICENSING

TRWYDDEDU TELEDU

**STOPIO.
GWIRIO.
GOFYN.**

**Sut i adnabod
negeseuon dilys gan
Drwyddedu Teledu,
a sut i sylwi ar
y twyllwyr.**

A yw'n dod oddi wrth Drwyddedu Teledu mewn gwirionedd?

Y pethau i chwilio amdanynt:



E-byst

T 4



Llythyrau

T 8



Galwadau ffôn

T 10



Negeseuon testun

T 12



Ymweliadau â'ch cartref

T 16



Riportio twyll

T 18

STOPIO.

Yn anffodus, mae twyll ar gynnydd ac mae Trwyddedu Teledu yn un o'r sefydliadau y gall twyllwyr geisio ei ddynwared.

Os byddwch yn derbyn rhywbeth sy'n dweud ei fod yn dod oddi wrth Drwyddedu Teledu a'ch bod yn ansicr yn ei gylch, y peth cyntaf i'w wneud yw STOPIO. Peidiwch â rhuthro i rannu eich gwybodaeth bersonol.

GWIRIO.

Bydd twyllwyr yn defnyddio amryw o ddulliau i geisio cael gwybodaeth gennych – o bosib trwy e-bost, llythyr, neges testun, galwad ffôn, neu hyd yn oed ymwelydd wrth eich drws.

Mae'r daflen yma'n dweud wrthyhch beth i'w wneud ym mhob achos, i'ch helpu i weld a yw negeseuon yn dod oddi wrth Drwyddedu Teledu ai peidio.

GOFYN.

Os ydych yn ansicr ynghylch unrhyw negeseuon a gawsoch gan Drwyddedu Teledu, rydym bob amser yn falch o helpu.

Ar y tudalennau sy'n dilyn mae ein manylion cyswllt, ynghyd â sefydliadau eraill y gallwch gysylltu â nhw am wybodaeth a chynghor.



E-byst

Mae twyll trwy e-bost yn gallu ymddangos bron union yr un fath ag e-byst dilys Trwyddedu Teledu. Dyma enghraifft o e-bost go iawn Trwyddedu Teledu. Rydym wedi'i labelu i'ch helpu i weld a yw'r e-bost a gawsoch yn ffug.

1
Anfonwr

TV Licensing <donotreply@tvlicensing.co.uk>

You're about to lose your licence.

Your TV Licence expires on 31 May 2020.

So you know this email is from TV Licensing, we've included part of your postcode, ***2CD. For details on how to check this is genuine information, sent by TV Licensing, please refer to [Your security](#) at the bottom of this email.

[Cliciwch neu sgroliwch i lawr i ddarllen hyn yn Gymraeg](#)



2
Côd post rhannol

3
Eich enw

Dear Mrs Smith,

**You're about to lose your TV Licence.
Act now, before it's too late.**



You stopped paying for your TV Licence by Direct Debit. Because of this, your licence is about to expire. Please set up a new Direct Debit to stay licensed.

[Set up a Direct Debit](#)

1. Edrychwch ar yr anfonwr

Bydd e-byst dilys Trwyddedu Teledu yn cael eu hanfon o:

donotreply@tvlicensing.co.uk neu

donotreply@spp.tvlicensing.co.uk

Ar gyfrifiadur neu liniadur, fe ddylech allu gweld y cyfeiriad e-bost go iawn rhwng y symbolau < >. Ond ar ddyfais symudol, efallai y bydd raid dewis enw'r anfonwr i weld y cyfeiriad.

 **Cwsmer Trwyddedu Teledu**
<note81@mail.co.uk>

 **Trwyddedu Teledu**
<donotreply@tvlicensing.co.uk>

2. Côt post rhannol

Os ydych wedi rhoi manylion eich côd post i ni, bydd e-byst oddi wrthym yn cynnwys rhan o'ch côd post a/neu yr enw ar y drwydded.

3. Chwiliwch am eich enw

Os ydych wedi rhoi eich enw i ni, yna fe fyddwn bob amser yn eich cyfarch gan ddefnyddio eich enw olaf a theitl. Gwyliwch rhag e-byst sydd ond yn cyfeirio atoch fel "Annwyl gleient" neu "Annwyl gwsmer" – neu sy'n defnyddio eich cyfeiriad e-bost yn unig (neu ran ohono).

4. Edrychwch ar sillafu a gramadeg

Dyw twyllwyr ddim yn gallu defnyddio cyfeiriadau gwe dilys Trwyddedu Teledu na'n cyfeiriadau e-bost chwaith.

Chwiliwch am sillafiadau ychydig yn wahanol a phethau fel heiffen a gwallau gramadegol eraill, fel atalnod llawn mewn lleoedd rhyfedd.

5. Edrychwch ar y ddolenni

Dylech bob amser edrych ar ddolenni mewn e-bost cyn clicio neu dapio arnynt. Gwyliwch yn arbennig rhag e-byst sy'n addo arian/ad-daliad.

Os ydych ar gyfrifiadur:


- Symudwch eich llygoden dros y ddolen (ond peidiwch â chlicio arni). Bydd hyn yn datgelu enw'r cyfeiriad gwe llawn rydych yn cael eich anfon ato.

Os ydych ar ffôn clyfar neu dabled:

- Pwyswch ar y ddolen a'i dal i lawr (peidiwch â rhyddhau tra bo chi ar y ddolen). Bydd hyn yn datgelu enw'r cyfeiriad gwe llawn rydych yn cael eich anfon ato.

Os byddwch yn ansicr

Peidiwch â chlicio ar unrhyw ddolenni na rhoi unrhyw fanylion personol. Mewngofnodwch yn **tvlicensing.co.uk/yourlicence** – gan ddefnyddio rhif eich trwydded, yr enw ar y drwydded a'r côd post – i weld eich trwydded, dyddiad dod i ben a manylion talu.



4

Sillafu

You stopped paying for your TV Licence by Direct Debit. Because of this, your licence is about to expire. Please set up a new Direct Debit to stay licensed.

Set up a Direct Debit

5

Dolenni



Llythyrau

Fe all twyllwyr anfon llythyrau atoch, wedi'u cyfeirio atoch gan ddefnyddio eich enw. Yn aml byddant yn gofyn i chi ffonio neu fynd ar lein i gadarnhau eich manylion talu. Dyma sut i ddweud y gwahaniaeth rhwng llythyr dilys gan Drwyddedu Teledu a llythyr ffug:

- ✓ Os ydych wedi'ch trwyddedu ar hyn o bryd a'ch bod wedi rhoi eich teitl a'ch enw olaf i ni, byddwn yn defnyddio'r rhain bob tro y byddwn yn ysgrifennu atoch. Byddwn yn cynnwys rhif eich Trwydded Deledu hefyd.
- ✓ Os ydych wedi cofrestru fel 'Dim Angen Trwydded', byddwn yn cynnwys y cyfeirnod hwnnw yn hytrach na rhif eich Trwydded Deledu.

Pa bethau fydd twyllwyr yn ceisio eu gwneud?

Bydd llythyr ffug yn aml yn dweud wrthyich fod problem gyda'ch trwydded neu fod ad-daliad yn ddyledus. Pwrpas hyn yw ceisio eich cael i fynd i wefan ffug neu ffonio rhif ffug i ddatrys y mater.

Os byddwch yn amheus neu'n ansicr ynglŷn â'r hyn y mae llythyr yn gofyn i chi ei wneud, dylech bob amser fynd i'n gwefan a mewngofnodi i'ch trwydded yn **tvl.co.uk/yourlicence** i weld a oes unrhyw beth o'i le mewn gwirionedd.

Ein gwefannau swyddogol y byddwn yn eich cyfeirio atynt yw:

- ✓ **tvlicensing.co.uk**
- ✓ **spp.tvlicensing.co.uk**
- ✓ **75plan.tvlicensing.co.uk**


Gallwn ddefnyddio ein cyfeiriad gwe byrrach hefyd **tvlicensing.co.uk** a fydd bob amser yn eich cyfeirio at ein gwefannau.

Teitl ac enw olaf

Rhif y Drwydded Deledu

XX/XX-XXXXXX/XXXXXX:XXX-XXXXXX

Mr A B Sample
1 Sample Road
Sampletown
Sampleshire
Sample City
AB1 2CD



TV LICENSING
tvlicensing.co.uk

TV Licence number
1234567890
XX September 20XX

Re: Mr A B Sample, Sample House, 1 Sample Road, Sample Town, Sample City AB1 2CD

Here is your Payment Plan and TV Licence

Dear Mr Sample,

Thank you for setting up a quarterly Direct Debit.

You're now covered to watch and record live TV programmes on any channel and to download or watch BBC programmes on iPlayer. This applies to any device you use.

What happens now?
Just make sure your payment plan and TV Licence details are correct and then you're done.

We'll take your first payment on or within three working days of **XX September 20XX**. Please have a look at your payment plan for the rest of your payment dates.

As you currently pay for your licence in quarterly instalments, a charge of £1.25 is included in the amount you pay each quarter. We also offer other schemes, which don't include this charge. You can find out more online at tvlicensing.co.uk/dd

Thanks again, that's all for now. Enjoy your viewing.


Yours sincerely,
Jackie Garswood
Jackie Garswood
Customer Service Manager

Stay up-to-date online

- Transfer your licence if you move home
- Update your bank account details or payment date
- See or download your current licence and payment plan

Did you know?
You don't need a paper licence as it's stored safe and secure online. Why not switch to paperless now? Then next time your licence renews, we'll email you instead.

Sign in with your TV Licence number, surname and postcode at tvlicensing.co.uk/myupdate



Your Payment Plan

Account name:	AB Sample
Sort code:	00-00-00
Account number:	***1234
Already paid:	£XXX.XX
Payments to make:	
XX Sep 20XX	£XXX.XX
XX Sep 20XX	£XXX.XX
XX Sep 20XX	£XXX.XX
XX Sep 20XX	£XXX.XX
XX Sep 20XX	£XXX.XX
Total =	£XXX.XX

We'll take payments on or within three working days of the dates shown.
If your payments change, we will send you a new payment plan.

Your TV Licence

Licensed address	
Mr A B Sample Sample House 1 Sample Road Sampletown Sample City AB1 2CD	
TV Licence number	1234567890
Payment method	Quarterly Direct Debit
Licence type	Colour
Valid until	XX Sep 20XX
Licence fee	£XXX.XX*

*Your licence fee includes a 25 charge (£1.25 per quarter). For full terms and conditions of the TV Licence, please turn over. Your licence is issued by TV Licensing on behalf of the BBC.

PL 01-02-19



Galwadau ffôn

Weithiau, gallwn eich ffonio os oes problem gyda'ch Trwydded Deledu. Fel arfer bydd hyn yn gysylltiedig â methu taliad, Debyd Uniongyrchol wedi'i ganslo, neu eich atgoffa i adnewyddu.

Byddwn yn eich ffonio o:

- ✓ **0300 790 6075,**
- ✓ **0300 555 0285 neu**
- ✓ **0300 555 0355.**

Os nad ydych yn siwr a yw'r alwad yn ddilys, peidiwch â rhoi unrhyw wybodaeth bersonol. Gallwch fewngofnodi i'ch trwydded yn **tvf.co.uk/yourlicence** i weld eich cynllun talu a gweld a oes angen cymryd unrhyw gamau.

Os ydych wedi cysylltu â ni gydag ymholiad, gall un o'n tîm eich ffonio'n ôl i drafod hynny. Gall hyn fod o rif sy'n cael ei guddio, ond bydd yr alwad yn ymwneud â'ch ymholiad yn unig.



Os byddwch yn ansicr

Peidiwch â rhoi unrhyw fanylion personol – **rhowch y ffôn i lawr**. Weithiau bydd twyllwyr yn gallu cadw llinellau ffôn ar agor. Felly os oes angen i chi gysylltu gyda ni neu eich banc, cofiwch aros o leiaf 20 munud cyn gwneud galwad newydd. Neu defnyddiwch ffôn gwahanol.






Negeseuon testun

Dyma sut i ddweud a yw neges testun yn dod oddi wrth Drwyddedu Teledu go iawn ai peidio.

Pryd y gallwn anfon neges testun atoch:

- ✓ Os ydych yn gwsmer cerdyn talu Trwyddedu Teledu, gallwn anfon neges testun atoch yn gofyn i chi wneud taliad. Os ydych yn gwsmer y Cynllun Talu Syml, bydd y ddolen yn mynd â chi i'n darparwr taliadau diogel (tvlspp.paythru.com).
- ✓ Os ydych newydd gofrestru ar gyfer Debyd Uniongyrchol, fe allech dderbyn neges testun yn rhoi gwybod pryd y caiff eich taliad cyntaf ei gasglu.
- ✓ Os ydych wedi cysylltu â ni dros y ffôn neu ar ein gwasanaeth awtomataidd, fe allem anfon neges i gadarnhau hynny neu arolwg boddhad.
- ✓ Os byddwch yn derbyn eich trwydded trwy'r post, fe allech dderbyn neges yn gofyn i chi fynd yn ddi-bapur.



Y rhifau ffôn y byddwn yn eu defnyddio:

Os yw'r neges yn gofyn i chi ffonio, dylech weld a yw'n un o'r rhifau hyn:

- ✓ **0300 555 0293**
os ydych yn talu trwy gerdyn talu
- ✓ **0300 790 6082**
os ydych yn talu trwy Ddebyd Uniongyrchol
- ✓ **0300 555 0355**
os ydych yn gwsmer y Cynllun Talu Syml.
- ✗ Os cawsoch neges testun sy'n gofyn i chi ffonio unrhyw rif arall, **peidiwch â'i ffonio**.

Pethau na fyddwn byth yn eu gwneud mewn neges testun:

- ✗ Dweud wrthyh fod gennych hawl i gael ad-daliad
- ✗ Gofyn i chi drefnu cynllun talu neu ddarparu eich manylion banc trwy neges testun
- ✗ Gofyn i chi roi unrhyw fanylion personol ar ein gwefan cyn i chi fewngofnodi'n llwyddiannus i'ch trwydded.

Cyn i chi roi unrhyw wybodaeth, dylech sicrhau mai cyfeiriad y wefan yw ein gwefan ddilys ni.

Y gwefannau swyddogol y gallwn eich cyfeirio atynt yw:

- ✓ tvlicensing.co.uk
- ✓ spp.tvlicensing.co.uk
- ✓ 75plan.tvlicensing.co.uk



Os ydych yn ansicr ynghylch neges testun a gawsoch:

Peidiwch â rhoi unrhyw fanylion personol. Gallwch fewngofnodi i weld eich trwydded neu gynllun talu a gweld a oes angen cymryd unrhyw gamau yn tvlicensing.co.uk/yourlicence



Ymweliadau â'ch cartref

Dyma sut gallwch ddweud a yw ymwelydd yn dod o Drwyddedu Teledu mewn gwirionedd.

Byddwn wedi anfon llythyr at eich cyfeiriad yn gyntaf i roi gwybod y gallwn ymweld. Hyd yn oed os na fyddwch yn cofio gweld unrhyw beth gennym trwy lythyr, gallwch sicrhau o hyd fod yr ymweliad yn ddilys. Yn syml iawn, dilynwch y camau isod.

Gofynnwch am gerdyn adnabod

Bydd unrhyw un sy'n ymweld o Drwyddedu Teledu yn gallu profi pwy ydyn nhw trwy ddangos cerdyn adnabod personol Trwyddedu Teledu.



Os byddwch yn ansicr

Gallwch gael tawelwch meddwl drwy ffonio **0300 790 6042** a gallwn ddilysu manylion yr ymwelydd.





Riportio twyll

Os ydych eisiau riportio e-bost amheus:

Mae Trwyddedu Teledu yn cefnogi gwaith Canolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (NCSC) y Llywodraeth i helpu i atal twyllwyr. Fe ddylech anfon unrhyw e-byst amheus ymlaen at **report@phishing.gov.uk** ac fe fyddan nhw'n ymchwilio. Os bydd yr e-bost wedi'i gysylltu â gwefan ffug, fe fydd yn cael ei chau neu ei hatal.

Os ydych wedi rhoi eich manylion personol ar safle amheus:

Dylech ei riportio i Action Fraud yn **www.actionfraud.police.uk**

neu eu ffonio ar **0300 123 2040**.

Os oedd hyn yn cynnwys **manylion cerdyn neu gyfrif banc**, dylech gael gair â'ch banc ar unwaith.

Sut i riportio neges testun ffug:

Helpwch i roi stop ar y twyllwyr trwy anfon sgrînlun o'r neges at **textscam@tvlicensing.co.uk**

Oes gennych chi gwestiynau o hyd?

I gael cymorth a chyngor pellach ar sut i adnabod negeseuon dilys gan Drwyddedu Teledu:

Ewch i **tv1.co.uk/scam**

Neu ffoniwch ni ar **0300 790 6042**.

Hoffech chi gael y wybodaeth yma ar ffurf wahanol?

Os oes gennych broblemau gyda'ch golwg, gallwn anfon y wybodaeth yma trwy e-bost neu mewn Braille, print bras neu sain. Ffoniwch **0300 790 6076**.

Os ydych yn fyddar, wedi colli eich clyw neu â nam ar eich lleferydd, rydym yn cefnogi gwasanaeth Relay UK (sef Gwasanaeth Testun y Genhedlaeth Nesaf yn flaenorol). Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth yn **tv1.co.uk/accessibility**



Ydych chi'n meddwl y gallech fod wedi'ch twyllo yn barod?

Fe ddylech ei riportio i
Action Fraud ar unwaith.

Ewch i **www.actionfraud.police.uk**
Neu ffoniwch **0300 123 2040**.

Dylech nodi, os ydych wedi rhoi
manylion eich cerdyn neu fanylion
banc, fe ddylech gael gair â'ch
banc ar unwaith hefyd.

© 2020 Trwyddedu Teledu

TVL-PR-SCAM-09-20-1WE